Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 1217 (Cy. 199)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001"),

(b) Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 ("Gorchymyn 2001"), ac

(c) Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008").

Mae Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth ynghylch ymddygiad aelodau a chyflogeion awdurdodau lleol.

Mae adran 53(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod perthnasol yng Nghymru sefydlu pwyllgor safonau. Mae Rheoliadau 2001 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â maint, cyfansoddiad a thrafodion pwyllgorau safonau ac is-bwyllgorau ynghyd â phenodiad, tymor swydd ac ailbenodiad aelodau annibynnol i bwyllgorau o'r fath.

Mae rheoliad 2 yn mewnosod diffiniadau o "swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol", "swyddog cofrestru" a "swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2001. Mae hefyd yn diwygio rheoliad 6 o Reoliadau 2001 i ganiatáu i gyn-aelodau o un neu ragor o awdurdodau perthnasol, o gyd-bwyllgor corfforedig, neu o awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig, wasanaethu fel aelod annibynnol o bwyllgor safonau awdurdod perthnasol neu gyd-bwyllgor corfforedig.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Gosodir cyfnod aros o ddwy flynedd pan fo'r cyn-aelod yn dymuno dod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau i awdurdod yr oedd yn aelod ynddo, ac eithrio pan fo'r cyn-aelod wedi dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol yn yr un awdurdod, ac yn yr achos hwnnw mae'r cyfnod aros yn bum mlynedd.

Pan fu'r cyn-aelod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig, neu o awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, gosodir cyfnod aros o ddwy flynedd cyn y gall y cyn-aelod ddod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, ac eithrio, pan fo'r cyn-aelod wedi dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol mewn awdurdod cyfansoddol y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, mae'r cyfnod aros yn bum mlynedd.

Mae rheoliad 2 hefyd yn diwygio rheoliad 7 o Reoliadau 2001 i ganiatáu i gyn-swyddogion un neu ragor o awdurdodau perthnasol, o gyd-bwyllgor corfforedig, o awdurdod cyfansoddol neu o awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol, wasanaethu fel aelod annibynnol o bwyllgor safonau.

Gosodir cyfnod aros o ddwy flynedd pan fo'r cyn-swyddog yn dymuno dod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau awdurdod y mae wedi dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol neu swydd swyddog cofrestru ynddo. Mae'r un cyfnod aros yn gymwys mewn cysylltiad â gallu cyn-swyddog i ddod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig pan fo'r cyn-swyddog wedi dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol yn y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, neu mewn awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, neu wedi dal swydd swyddog cofrestru mewn awdurdod cyfansoddol y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw.

Mae adran 49(2) o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr egwyddorion sy'n llywodraethu ymddygiad aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn wedi eu nodi yn yr Atodlen i Orchymyn 2001. Mae adran 50(2) o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cod enghreifftiol o ran yr ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol wedi ei nodi yn yr Atodlen i Orchymyn 2008.

Mae rheoliad 3 yn mewnosod i erthygl 2 o Orchymyn 2001 ddiffiniad o "nodweddion gwarchodedig" drwy gyfeirio at y diffiniad yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae rheoliad 3 hefyd yn diwygio Egwyddor 7 (cydraddoldeb a pharch) o'r

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Atodlen i Orchymyn 2001 drwy roi "nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol" yn lle "gender, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd".

Mae rheoliad 4 yn mewnosod ym mharagraff 1 o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol fel y'i nodir yn yr Atodlen i Orchymyn 2008 ddiffiniad o "nodweddion gwarchodedig" drwy gyfeirio at y diffiniad yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hefyd yn diwygio paragraff 4 i roi "nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol" yn lle'r cyfeiriad at "rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd".

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 1217 (Cy. 199)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Tachwedd 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *21 Tachwedd 2025* |
| *Yn dod i rym* | *5 Ionawr 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 49(2), 50(2) a (3), 53(11)(a) a 105(2)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

Yn unol ag adrannau 49(5)(**2**) a 50(5)(**3**) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cynrychiolwyr hynny o awdurdodau perthnasol yr

(**1**) 2000 p. 22. Diwygiwyd adran 49(2) gan baragraff 8(3) o Atodlen 4 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20). Diwygiwyd adran 50(2) a (3) gan baragraff 9(3) a (4) o Atodlen 4 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn y drefn honno. Diwygiwyd adran 53(11)(a) gan baragraff 12(4)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac adran 68(2)(c)(i) a (ii) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (dccc 4). Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 49(2) a 50(2) a (3) i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Caniateir arfer y pwerau i wneud gorchymyn o dan adrannau 49(2) a 50(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 er mwyn gwneud rheoliadau yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

(**2**) Diwygiwyd adran 49(5) gan baragraff 8(5) o Atodlen 4 i Ddeddf Lleoliaeth 2011, paragraff 53(3) o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p. 23) a pharagraff 2(b) o Atodlen 4 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (p. 10).

(**3**) Diwygiwyd adran 50(5) gan baragraff 9(7) o Atodlen 4 i Ddeddf Lleoliaeth 2011.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

oeddent yn ystyried eu bod yn briodol, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a'r personau eraill hynny yr oeddent yn ystyried eu bod yn briodol.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Ionawr 2026.

### Diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

> "mae i "swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol" yr ystyr a roddir i "politically restricted post" gan adran 2(1), (1A) ac (1B) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**2**);
>
> ystyr "swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol" ("*senior, cabinet or executive post*") yw—
>
> (a) cadeirydd a etholir o dan adran 22(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**3**);
>
> (b) is-gadeirydd a benodir o dan adran 24(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972;
>
> (c) aelod llywyddol a etholir o dan adran 24A(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**4**);
>
> (d) dirprwy aelod llywyddol a benodir o dan adran 24B(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**5**);
>
> (e) maer etholedig a etholir o dan adran 39(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

(**1**) O.S. 2001/2283 (Cy. 172), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/988 (Cy. 159); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) 1989 p. 42. Diwygiwyd adran 2(1) gan adran 203(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28); ac adran 21(2) a (3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4). Mewnosodwyd adran 2(1A) gan baragraff 7(a) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1). Mewnosodwyd adran 2(1B) gan O.S. 2021/1349 (Cy. 348).

(**3**) 1972 p. 70.

(**4**) Mewnosodwyd adran 24A gan adran 51(2) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

(**5**) Mewnosodwyd adran 24B gan adran 51(2) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(f) dirprwy faer a benodir o dan baragraff 1(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

(g) arweinydd gweithredol a etholir o dan adran 11(3)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**);

(h) aelod o weithrediaeth awdurdod lleol a benodir o dan adran 11(2)(b)(**2**) neu (3)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

(i) Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a benodir yn unol ag adran 66 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;

ystyr "swyddog cofrestru" ("*registration officer*") yw swyddog a benodir o dan adran 8(2A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**3**);".

(3) Yn lle rheoliad 6 (aelodau blaenorol awdurdod perthnasol) rhodder—

"**6.**—(1) Caiff person sydd wedi bod yn aelod o un neu ragor o awdurdodau perthnasol, ond nad yw'n aelod mwyach, fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn—

(a) ni chaiff unrhyw berson sydd wedi dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol mewn un neu ragor o awdurdodau perthnasol fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol y mae'r person hwnnw wedi dal swydd o'r fath ynddo hyd nes y daw i ben y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â dal swydd o'r fath ddiwethaf;

(b) ni chaiff unrhyw berson a oedd yn aelod o un neu ragor o awdurdodau perthnasol fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol yr oedd y person hwnnw'n aelod ohono (nad oedd yn dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd

(**1**) Diwygiwyd adran 11(3) gan adran 62(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 a pharagraff 11(4) o Atodlen 3 i Ddeddf Lleoliaeth 2011.

(**2**) Diwygiwyd adran 11(2) gan adran 62(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 a pharagraff 11(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Lleoliaeth 2011.

(**3**) 1983 p. 2. Mewnosodwyd adran 8(2A) gan baragraff 68(1) o Atodlen 16 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

weithredol) hyd nes y daw i ben y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw ddiwethaf.

(2) Caiff person sydd wedi bod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig, neu'n aelod o awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig, ond nad yw'n aelod mwyach, fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn—

(a) ni chaiff unrhyw berson sydd wedi dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol mewn awdurdod cyfansoddol cyd-bwyllgor corfforedig fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw hyd nes y daw i ben y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â dal swydd o'r fath ddiwethaf;

(b) ni chaiff unrhyw berson a oedd yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig, neu'n aelod o awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw (nad yw'n dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol yn achos awdurdod cyfansoddol), fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw hyd nes y daw i ben y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â bod yn aelod o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, yr awdurdod cyfansoddol hwnnw neu'r awdurdod Parc Cenedlaethol hwnnw ddiwethaf."

(4) Yn lle rheoliad 7 (swyddogion blaenorol awdurdod perthnasol) rhodder—

"**7.**—(1) Caiff person sydd wedi bod yn swyddog i un neu ragor o awdurdodau perthnasol, ond nad yw'n swyddog mwyach, fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol, ac eithrio pan fo paragraff (2) yn gymwys.

(2) Pan fo'r person y cyfeirir ato ym mharagraff (1) wedi dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol, neu swydd swyddog cofrestru, mewn awdurdod perthnasol, ni chaiff y person hwnnw fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

y mae'r person hwnnw wedi dal swydd o'r fath ynddo hyd nes y daw i ben y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â dal swydd o'r fath ddiwethaf.

(3) Caiff person sydd wedi bod yn swyddog i gyd-bwyllgor corfforedig, neu'n swyddog i awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol cyd-bwyllgor corfforedig, ond nad yw'n swyddog mwyach, fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig, ac eithrio pan fo paragraff (4) yn gymwys.

(4) Pan fo'r person y cyfeirir ato ym mharagraff (3) wedi dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol mewn unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig, neu mewn awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig, neu wedi dal swydd swyddog cofrestru mewn awdurdod cyfansoddol unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig, ni chaiff y person hwnnw fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw hyd nes y daw i ben y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â dal swydd o'r fath ddiwethaf."

**Diwygio Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001**

**3.**—(1) Mae Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli)—

(a) yn y testun Saesneg, ar ddiwedd y diffiniad o "member", hepgorer "and";

(b) yn y testun Cymraeg, ar ddiwedd y diffiniad o "aelod cyfetholedig", hepgorer "ac";

(c) yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"mae i "nodweddion gwarchodedig" yr ystyr a roddir i "protected characteristics" yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**2**);".

(3) Yn yr Atodlen, ym mharagraff 7 (cydraddoldeb a pharch) yn lle "gender, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd" rhodder "nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol".

(**1**) O.S. 2001/2276 (Cy. 166), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) 2010 p. 15.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008**

**4.** Yn yr Atodlen i Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008(**1**)—

(a) ym mharagraff 1(1), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

“mae i “nodweddion gwarchodedig” yr ystyr a roddir i “protected characteristics” yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010;”;

(b) ym mharagraff 4(a), yn lle “rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd” rhodder “nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol”.

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
19 Tachwedd 2025

(**1**) O.S. 2008/788 (Cy. 88), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.